PEIDIWCH BYTH Â MYND YN ARAF I DDEALL

Nodyn i'r siaradwr:
Cynorthwywch y gynulleidfa i werthfawrogi'r anghenion holl-bwysig hyn: Wrth astudio neu bod yn bresennol mewn cyfarfodydd, rhowch sylw i sut 'rydych yn gwrando. Gwrandewch yn astud; ceisiwch ddeall cyfarwyddyd Jehofah. Fe ddengys eich gweithredoedd a ydych yn gwrando pan lefara Jehofah

YR HWN SYDD GANDDO GLUSTIAU, GWRANDAWED (5 mun.)

Mae'r holl ffordd Gristnogol o fyw, gwasanaeth, addoliad, ac iachawdwriaeth yn dibynnu ar barodrwydd i wrando Gair Duw ac ufuddhau iddo; "o'r hyn a glywir y daw ffydd" (Rhuf 10:17)

Mae calon dda yn arfer ffydd yn y pethau a glywyd gan achosi 'cyffesu â'r genau sy'n ein dwyn i iachawdwriaeth' (Rhuf 10:10)

Mae miliynau'n clywed y gair ysgrifenedig a llafar, ond dim ond ychydig sy'n gwir wrando, neu'n deall

Mae Paul yn ein rhybuddio rhag mynd yn araf i ddeall (Heb 5:11)

'Gwyn eu byd y rhai sy'n clywed, a gwyn eu byd y rhai sydd yn dwyn allan o'u trysorfa bethau newydd a hen,' neu sy'n defnyddio'r gwirionedd i gyfarwyddo'u bywydau eu hunain a chynorthwyo eraill i wneud hynny (Mth 13:13, 16, 51, 52; *it*-2 713 ¶1)

Byddwch yn gyflym i wrando Gair Duw; 'derbyniwch . . . y gair hwnnw a blannwyd ynoch, ac sy'n abl i achub eich eneidiau' (Iago 1:19, 21)

RHAID I WRANDAWYR Y GAIR DDOD YN WEITHREDWYR Y GAIR (12 mun.)

Dim ond y rhai sy'n 'gwneud ewyllys Duw fydd yn mynd i mewn i'r deyrnas' (Mth 7:21-23)

Llawer yn cyflawni gwyrthiau yn enw Iesu, ond am na chânt eu cyflawni mewn ufudd-dod i Air Duw, golyga mai "drwgweithredwyr" yw pobl sy'n gweithredu felly (*w*88 10/1 27; *pe* 31; *w*90 10/1 24)

Rhaid wrth fwydo cyson a pharhaol ar Air Duw i ddysgu ewyllys Duw (Mth 4:4)

Mae cyfundrefn Jehofah yn darparu pum cyfarfod wythnosol, cyfle i astudio ei Air mewn grwpiau ac yn bersonol, a bugeiliaid, athrawon, a chyfarwyddwyr er mwyn cyfarwyddo'n drwyadl a darparu holl bobl Dduw "ar gyfer pob math o weithredoedd da" (2Tim 3:14-17; Mth 24:45-47)

Profiadau: Cafodd cyn offeiriades fwdw ei rhyddhau o afael y cythreuliaid drwy wrando ar Air Duw; daeth yn weithredwr y Gair, gan dreulio 140 awr y mis yn pregethu'r gwirionedd yn llawn amser. Cafodd entrepreneur llwyddiannus, heb bryderon ariannol ganddo, ei ryddhau oddi wrth gystadleuaeth ffyrnig byd busnes; daeth yn wneuthurwr y Gair gan dreulio 90 awr y mis yn bregethwr llawn amser (*w*79 2/15 5, 8; *w*86 5/1 24)

Hawdd syrthio i fagl mynd yn 'wrandawyr y gair' yn unig (Iago 1:22)

Mae hyd yn oed gweision sydd wedi'u cysegru eu hunain i Jehofah yn cael eu dal yn y magl hwn drwy ddilyn patrwm y byd drwg a pheidio â gwrando'r Gair na chymhwyso'r cyngor da sydd ynddo (Eff 5:28-33; 1Pedr 3:1-3, 7)

Mae'n fater o frys 'nawr i wrthwynebu a gwrthsefyll dylanwad digon-i'ch-dallu Satan a'i fyd drwg (Iago 4:7)

Esiampl Stefan yn Nwyrain Ewrop: Difethwyd ei briodas gan drais a diffyg cariad; cael gwybodaeth y gwirionedd, yna'i wraig yn ei wrthwynebu; yn ddiweddarach, daeth y ddau yn wrandawyr ufudd, gan ganfod hapusrwydd a llawenydd (*w*80 3/1 32; gweler hefyd *w*83 12/15 29; *w*86 4/1 6-7)

Daw gwrandawyr y Gair yn rhai sy'n caru heddwch a churo'u cleddyfau'n geibiau (Eseia 2:2-5)

Enghraifft: Am dros 400 mlynedd, mae aelodau llwythau Watusi a Hutu yn Affrica wedi rhyfela yn erbyn ei gilydd a lladd ei gilydd; 'fedrai gau grefydd nag ysbrydegaeth ddim cynnig meddyginiaeth; rhai 'nawr wedi dod yn wrandawyr, a hynny wedi dod â heddwch a chytgord; pobl a welodd hyn wedi'u synnu'n ddirfawr gan y trawsnewid (*g*79 5/8 25; *g*86 7/22 7-9)

BRAINT GWRANDAWYR YW DOD Â NEGES BYWYD I ERAILL (15 mun.)

Dywedodd Iesu Grist yr athro mwyaf, iddo ddod i'r byd i dystiolaethu i'r gwirionedd (In 18:37)

Hysbysodd ei gomisiwn i gyhoeddi a dysgu'r Gair i eraill (Lc 4:18-21)

Aeth drwy holl Judea yn iachau a dysgu; hefyd gwnaeth wrandawyr gwerthfawrogol yn ddisgyblion (Mth 9:35-38)

Pwysleisiodd Iesu'r angen am i bob un o'r disgyblion hyn efelychu ei esiampl ac fe gomisiynodd nhw i fynd a 'chyhoeddi newyddion da'r deyrnas' (Mth 10:1-10)

Rhoddodd orchymyn penodol i wneud llawer rhagor o ddisgyblion ym mhob rhan o'r ddaear a'u bedyddio nhw (Mth 28: 19, 20)

Proffwydodd y cyrhaeddai'r neges hyd eithaf y ddaear (Act 1:8; *it*-2 744)

Cludodd y Cristnogion cynnar neges y newyddion da drwy'r byd (Act 24:5; 28:22)

Bu gweithgarwch pregethu byd-eang aruthrol gan Dystion Jehofah yn enwedig oddi ar 1919

(Adolygwch rai uchelfannau'r siartiau yn y llyfr *Revelation Climax,* tudalennau 64-5. Cynhwyswch ffigyrau o'r adroddiad *Blwyddlyfr* diweddaraf)

Mae Tystion Jehofah wedi dosbarthu biliynau o ddarnau o lenyddiaeth Beiblaidd (*re* 154 ¶18)

Mae hyn yn ymateb gwych ar ran y rhai sydd wedi dod 'nid yn unig yn wrandawyr ond yn weithredwyr y gair' (Iago 1:22)

Un enghraifft: Gwrandawr ffyddlon, sydd wedi bod yn gwasanaethu'n llawn amser am 50 mlynedd, wedi dangos ei phenderfyniad i barhau i osod ei llaw ar yr aradr a chael rhan yn y gwaith sydd eto i'w wneud (*w*86 4/1 27-30) (Neu adroddwch brofiad o *w*89 4/1 26-9)

BYDD GWRANDAWYR Y GAIR YN NEWID EU BYWYDAU (10 mun.)

Mae'r holl ddynoliaeth yn mynd i gyfeiriad bywyd neu ddistryw (Mth 7:13, 14)

Bu llawer unwaith yn rhan o fyd Satan ac yn elynion i Dduw, ond newidiodd y gwirionedd fywydau'r rhai sy'n ufuddhau i'r hyn glywant gan Dduw (Eff 4:17-19)

’Dyw’r rhain ddim yn byw mwyach fel mae’r cenhedloedd yn byw ond maent wedi ‘rhoi heibio’r hen natur ddynol a gwisgo amdanynt y natur ddynol newydd sy’n eu hadnewyddu mewn ysbryd a meddwl’ (Eff 4:20-24; *g*89 6/8 26-7; *gm* 175-6)

Mae cyfeillgarwch â’r byd yn gwneud pobl yn elynion i Dduw, felly mae’n angenrheidiol inni beidio “â chydymffurfio â’r byd hwn” ac adnewyddu ein meddwl drwy gymhwyso’r hyn a glywn drwy gyfrwng Gair Duw (Rhuf 12:1, 2; *w*79 5/1 18 ¶8)

Mae dameg yr heuwr gan Iesu yn Marc 4:3-9 yn dangos, pa mor dda bynnag fo’r had neu’r gair, fod y canlyniadau yn dibynnu ar y “tir,” neu gyflwr calon unigolion

Mae pridd sâl ei ansawdd yn rhwystro’r had rhag dwyn ffrwyth, ond mae’r rhai a chanddynt glustiau da a chalonnau da yn dwyn ffrwyth toreithiog (Mc 4:14-20)

Po fwyaf o sylw a wnawn o’r Gair ac ufuddhau iddo, y mwyaf fydd ein gwobr

‘Â’r mesur y rhowch y rhoir i chwithau’ (Mc 4:24, 25; *w*80 6/15 12)

BYDD GWRANDAWYR GWERTHFAWROGOL YN MEDI FFRWYTH CYFOETHOG Y DEYRNAS (3 mun.)

Yn nameg Iesu am y pedwar math o dir, dim ond nodweddion ffisegol y tir a ddisgrifiodd, ond mae nodweddion cemegol i’w hystyried hefyd

Fel y dengys dameg Iesu yn Marc 4:26-29, mae’n rhaid i’r un sy’n gwrando Gair Duw yn werthfawrogol fod yn ofalus ymhle y mae’n hau ei had

Bydd yr amgylchedd, da neu ddrwg, yn dylanwadu ar y fath o ffrwyth a gynhyrchir (1Cor 5:9-11; Gal 6:7, 8; *w*80 6/15 13-22)

Bydd y gwrandawr ufudd yn meithrin ffrwyth ysbryd sanctaidd Duw drwy osgoi cymdeithasu â’r rhai sy’n arddangos ffyrdd y cnawd cwympedig

Bydd yn hau i’r ysbryd fel y bydd yn cynaeafu ffrwyth addas ar gyfer aelodaeth yn Nheyrnas nefol Duw neu i fwynhau buddion daearol dan y Deyrnas honno (1Cor 15:33; Gal 5:19-24)

Bydd cymdeithasu drwg yn cyfrannu at ffrwyth drwg; bydd cymdeithasu da ac ufudd-dod i Air Duw yn cymeradwyo’r gwrandawr i Jehofah ar gyfer bywyd tragwyddol

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. ’Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir)